Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

**Cyfeirnod:** LF21003/AC248/caf
**Dyddiad Cyhoeddi:** 27 Ionawr 2021

Annwyl Llŷr

## Amcangyfrif Atodol Swyddfa Archwilio Cymru 2020-21

Diolch am eich llythyr dyddiedig y 19eg o Ionawr 2021 lle gwnaethoch gadarnhau eich cefnogaeth i'n cynnig o Amcangyfrif Atodol a gofyn inni ddarparu rhagor o fanylion am werth amcangyfrifedig croniad gwyliau blynyddol 2020-21 ar gyfer Archwilio Cymru.

Byddwch yn cydnabod bod y flwyddyn ariannol gyfredol wedi bod yn ddigynsail i bob un ohonom a bu rhaid i'n staff ninnau, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, addasu i weithio o bell a chawsant fwy o anhawster i gymryd gwyliau blynyddol wedi eu cynllunio.

Rydym wedi parhau i bwysleisio i staff bwysigrwydd cymryd gwyliau blynyddol pan fo'n bosibl er mwyn eu lles ond, yn anochel, ein disgwyliad yw y bydd staff yn cronni mwy o wyliau blynyddol nag a fyddai wedi digwydd mewn blwyddyn arferol.

Ar ddiwedd 2019-20 gwerth y gwyliau blynyddol cronedig yn Archwilio Cymru, fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, oedd £521,000 – oedd yn cyfateb i 8.5 diwrnod ar gyfartaledd fesul aelod o staff. Ar gyfer 2020-21 rydym yn disgwyl i falansau gwyliau blynyddol cronedig gynyddu o oddeutu 3 diwrnod fesul aelod o staff – sy'n cyfateb i gost o £200,000 yn uwch i'n cyfrifon. Addasiad adnoddau yn unig yw'r cynnydd hwn ac nid yw'n effeithio ar ein gofynion ariannol.

Fel yr eglurir yn ein Hamcangyfrif Atodol, cafodd y gost hon fwy na'i gwrthbwyso gan incwm ac arbedion ychwanegol dan benawdau cyllidebau eraill sy'n golygu nad ydym yn gofyn am unrhyw arian ychwanegol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Yn gywir

**LINDSAY FOYSTER**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**